

Beth i'w ddisgwyl yn eich cartref newydd

Mae'n rhaid i bob eiddo y mae Cyngor Caerdydd yn ei osod fod o safon uchel. Mae'r daflen hon yn esbonio beth y mae'r safon honno yn ei olygu i chi.

Byddwn yn sicrhau bod eich cartref:-

- mewn cyflwr da
- yn ddiogel
- yn lân

Bydd unrhyw waith atgyweirio mawr wedi'i wneud cyn cynnig y llety i chi. Fodd bynnag, efallai y caiff peth mân waith atgyweirio ei wneud ar ol i chi symud i mewn.

Bydd y Swyddog Ymweld a fydd gyda chi'n ymweld â'r eiddo yn gallu dweud wrthyhych beth fydd y gwaith sydd ar ôl i'w wneud yn ogystal â'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith.

Gallwch ddisgwyl i'ch cartref newydd gyrraedd y safonau canlynol pan fyddwch chi'n symud i mewn:

Cyffredinol

- Bydd yr eiddo (gan gynnwys gosodiadau'r ystafell ymolchi / unedau'r gegin a'r arwynebau) yn lân.
- Ni fydd difrod mawr i'r gwaith pren mewnol.
- Bydd y nenfydau a'r waliau mewn cyflwr da i'ch galluogi chi i'w paentio neu eu papuro (Gweler yr adran ar addurno).

- Bydd y systemau dŵr a gwresogi wedi cael eu profi a byddant yn gweithio'n iawn.
- Bydd profion diogelwch nwy a thrydan wedi'u cynnal.
- Ni fydd fermin na phryfetach yn yr eiddo.
- Ni fydd sbwriel y tu mewn nac y tu allan i'r eiddo, gan gynnwys yn y to.
- Bydd pob lawnt a gardd yn glir.
- Bydd coed a pherthi'n daclus.
- Bydd y llwybrau / rampau / grisiau i'r drysau yn ddiogel.
- Ni fydd yna graffiti ar yr eiddo.
- Rhown wybod i chi am raddfa ynni eich eiddo.
- Bydd yr eiddo yn gallu gwrthsefyll y tywydd ac ni fydd tamprwydd yno.

Lloriau, grisiau a nenfydau

- Bydd y nenfydau a'r lloriau'n ddiogel.
- Bydd y lloriau mewn cyflwr da i'ch galluogi chi i osod eich gorchudd eich hun. (Noder:- nid yw'r cyngor yn darparu gorchuddiau ar gyfer y lloriau).
- Pan fydd teils llawr unigol wedi'u newid, byddan nhw'n cyd-fynd a'r rhai gwreiddiol gymaint â phosib.
- Os bydd gorchudd llawr (megis carped neu fath arall o lawr) yn cael ei adael yn yr eiddo, bydd mewn cyflwr da.
- Os bydd canllaw ar y grisiau, bydd yn ddiogel.

Proud to Deliver
Yn Falch o Gyflawni



Ffenestri a drysau

- Bydd cloeon y drysau blaen a'r drysau cefn wedi cael eu newid ers y tenant blaenorol a byddwch yn cael set o allwedd.
- Bydd y drysau allanol yn ddiogel ac o safon uchel.
- Bydd y drysau wedi eu gosod yn gywir.
- Bydd pob ffenestr yn agor ac yn cau'n iawn a byddant yn ddiogel. Os bydd cloeon ar y ffenestri, byddwch chi'n derbyn allwedd.
- Bydd gwydr yn ei le ac ni fydd wedi torri.

Ystafell Ymolchi / Tai Bach

- Bydd y tŷ/tai bach, y sinc(iau) a'r bath yn ddiogel ac yn lân.
- Bydd tanc dŵr y toiled yn gweithio'n iawn.
- Bydd panel y bath mewn cyflwr da.
- Bydd sedd y toiled yn un newydd.
- Os bydd cawod, bydd yn lân, mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn.

Y Gegin

- Os yn bosib, bydd cysylltiad nwy a chysylltiad trydan.
- Bydd pob arwyneb ac uned mewn cyflwr da.
- Bydd y sinc a'r tapiau'n lân ac yn gweithio'n dda.
- Darperir cysylltiad ar gyfer peiriant golchi dillad.
- Caiff llefydd eu gadael yn wag ar gyfer popty, peiriant golchi dillad ac oergell.

Addurniadau

Caiff pob eiddo ei osod mewn cyflwr da o ran addurniadau. Os byddwn o'r farn bod angen i chi addurno yn y dyfodol, mae'n bosib y darperir lwfans addurno i'ch helpu chi. Bydd tai gwarchod mewn cyflwr da o ran addurniadau. Mae'r safonau uchod yn gymwys i holl eiddo'r Cyngor. Os na fyddwch o'r farn, ar weld yr eiddo, fod y safonau hyn wedi'i cyrraedd, dywedwch wrth y Swyddog Ymweld. Bydd y Swyddog yn ateb eich cwestiynau yn ystod eich ymweliad â'r eiddo neu cyn gynted â phosib ar ôl hynny.

Gwelliannau yn y dyfodol

Mae'r Cyngor yn cynnal gwelliannau mawr i roi gosodiadau ac addurniadau newydd yn ei holl eiddo. Mae hyn yn cynnwys:-

Y gegin a'r ystafell ymolchi
Systemau gwresogi
Uwchraddio systemau trydan
Ffenestri
Drysau blaen a chefn diogel
Y to
Y paent ar y tu allan
Efallai y bydd rhai o'r gwelliannau hyn eisoes wedi'u gwneud i'r eiddo y cewch ei gynnig, ond bydd eraill yn cael eu gwneud yn y dyfodol.

Pan fyddwch yn penderfynu symud i mewn

Bydd angen i chi:

- Drefnu bod cyfleustodau megis nwy, trydan a ffôn yn cael eu cysylltu.
- Trefnu cysylltu eich popty – ni ddarperir poptai.
- Darparu eich eitemau eich hun, pethau megis polion neu draciau llenni, y llenni eu hunain, carpedi neu loriau eraill, lamplenni, bylbiau ac ati

Os byddwch yn cytuno i dderbyn yr eiddo, byddwch yn cael 'Pecyn Gwybodaeth i Denantiaid Newydd' sy'n cynnwys rhifau ffôn cyswllt a gwybodaeth arall a allai fod ei hangen arnoch yn ystod eich tenantiaeth.

Beth sy'n digwydd os na fyddaf yn derbyn yr eiddo hwn?

Gallwch drafod hynny gyda'ch Swyddog Ymweld. I lawer o bobl, bydd hyn yn golygu aros am gynnig arall o'r rhestr. Fodd bynnag, os bydd y cynnig yn cael ei wneud i chi fel rhan o gais digartrefedd, efallai mai dyma'r unig gynnig y bydd y Cyngor yn ei wneud. Gall eich Swyddog Ymweld ddweud wrthyh am hyn.